

Ein Bro

Newyddion
Ysgol Bro Hyddgen
News



2

Gair gan y Pennaeth

Annwyl Riant/Ofalwr

Yn gyntaf hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth yn ystod blwyddyn sefydlu Ysgol Bro Hyddgen. Credaf fod y plant wedi cael addysg a phrofiadau ardderchog; mae cynlluniau traws cyfnodau mewn lle ac mae nifer o weithgareddau llwyddiannus traws oedran wedi eu cynnal.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r disgyblion a'r staff sydd wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau bod yr ysgol newydd yn llwyddiant. Mae'n bwysig nawr ein bod yn parhau i adeiladu ar y gwaith da sydd wedi ei wneud eisoes, un ffordd yw sicrhau bod pob disgybl yn dod i'r ysgol ar yr Zail o Fedi yn y wisg ysgol newydd.

Bydd rhai newidiadau staffio yn digwydd eleni gyda Mr Aled Myrddin wedi cael swydd yn Ysgol Gyfun Penweddig. Hoffwn ei longyfarch ar ei ddyrchafiad, dymuno'n dda iddo a diolch yn fawr iddo am 9 mlynedd o wasanaeth arbennig yn yr adran Addysg Gorfforol ac yn ei waith fel Arweinydd Cynnydd a Lles. Penodwyd Mr Gruffudd Jones o'r Hendy ger Llanelli yn ei le a bydd Mr Jones yn dechrau ar ei waith ym mis Medi. Hoffwn hefyd ddiolch i Miss Glesni Griffiths am ei gwaith yn adran y Gymraeg a dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Uwchradd Caereinion. Dod yn ôl atom mae Miss Alice Haslam ar ôl bod yn gweithio yn Lesotho am chwe mis. Hoffwn ei chrosawu yn ôl a diolch i Miss Lisa Raw-Rees am ei gwaith yn yr adran Saesneg a dymuno'n dda iddi yn yr ysgol gynradd am y flwyddyn nesaf.

Mae Mrs Ann Rapley hefyd yn gorffen a hoffwn ddiolch yn fawr iddi am ei gwasanaeth fel cymhorthydd dosbarth a dymuno pob lwc iddi yn y dyfodol. Hefyd ar ôl gweithio yn yr ysgol gynradd am 35 o flynyddoedd, hoffwn ddiolch yn fawr a dymuno'n dda i Mrs Heather Davies ar ei hymddeoliad. Mae lluniau o Mrs Davies yn yr ysgol uwchradd yn derbyn tarian pencampwr mabolgampau pan oedd yn ei harddegau. Mae Mrs Davies wedi rhoi gwasanaeth anhygoel i'r ysgol ac wedi dysgu cannoedd o blant y gymuned dros y blynyddoedd. Gobeithiaf yn fawr y

gwnaiff Mrs Davies fwynhau ei hymddeoliad ac y bydd yn parhau i gadw mewn cysylltiad ac yn ein cynorthwyo o dro i dro.

Er bod cyfnod o ansicrwydd o'n blaenau gyda newidiadau yn y byd addysg ym Mhowys, mae'n bwysig ein bod fel rhieni, staff a phlant yn canolbwyntio ar y pethau pwysig sef:

- Sicrhau profiadau diddorol a chyffrous i'r plant ar eu taith drwy'r ysgol
- Gwneud yr ysgol newydd yn ysgol wych sydd yn darparu addysg ragorol i'r plant ac yn eu paratoi at fywyd yn yr unfed ganrif ar hugain
- Peidio cyfyngu ar yr hyn all gael ei gyflawni - pa mor bell y gallwn symud yr ysgol yn ei blaen gan geisio goresgyn rhwystrau sy'n lleihau disgwyladau

Diolch yn fawr iawn unwaith eto a dymuniadau da i bawb gan obeithio y cawn dywydd braf i'w fwynhau yn ystod yr haf.

Cofion Cynnes

Dafydd M B Jones

Pennaeth



Letter from the headteacher

3

Dear Parent/Carer

Firstly I would like to voice my gratitude for your support during Ysgol Bro Hyddgen's inaugural year. I believe the pupils have been provided with excellent opportunities; planning across phases has continued and many successful activities have been held.

I'd like to thank the pupils and the staff for their hard work in ensuring that the new school is a success. It is important now that we continue to build on the foundations which have been set; one way is to ensure that every pupil comes to school on September 2nd wearing the new school uniform.

There will be some changes to the staff in September with Mr Aled Myrddin leaving to become head of faculty at Ysgol Gyfun Penweddig. I'd like to congratulate him on his promotion and thank him for his 9 years of service in the Physical Education department and also as a Learning Leader and Well-Being Leader. We all wish him well for the future. Mr Gruffudd Jones from Hendy near Llanelli has been appointed in his place and will start in September. I would also like to thank Miss Glesni Griffiths for her work in the Welsh department and wish her well in her new post at Ysgol Uwchradd Caereinion. Miss Alice Haslam has returned to us following a 6 months secondment in Lesotho. I'd like to welcome her back and thank Miss Lisa Raw-Rees for her work in the English department and also wish her well in her new role in the primary school for the next year. Mrs Ann Rapley is also finishing as a support assistant, I would like to thank her and wish her all the best for the future.

Mrs Heather Davies has worked in the primary school for 35 years and I would like to thank her and wish her well on her retirement. There are pictures of Mrs Davies in the secondary school when she was a teenager receiving the athletics trophy; she has given incredible service to the school and I'm sure that she has taught hundreds of you over the years. I sincerely hope that Mrs Davies enjoys her retirement and that she continues to keep in touch and possibly assist us from time to time.

Despite there being a period of uncertainty ahead of us, due changes being made to the provision of education in Powys, it is important that we as parents, staff and children concentrate on the important things:

- Ensuring that we provide interesting and exciting experiences for the children as they progress through the school
- Making our new school an excellent school by delivering high quality education to the children and preparing them for life in the twenty first century
- Raising the barriers on what can be achieved so that expectations are fulfilled

Thank you again for your support and I hope you all have a very good summer.

Yours sincerely

Dafydd M B Jones

Headteacher

Sioe Bioamrywiaeth Parc Cenedlaethol Eryri / Biodiversity Show by Snowdonia National Park



Cafwyd diwrnod hynod o gyffrous ar y 9fed o Fehefin pan fu staff Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnal amrywiaeth o weithdai gan gynnwys:-

- Gofod Planedau (Planetarium)
- Adnabod Gwyfynod
- Tylluanod
- Dadansoddi peli ysglyfaethwyr
- Arbrawf golau
- Cwrdd ag ystlumod

Bu'r disgyblion yn dysgu am fioamrywiaeth a gwyddoniaeth y nos.

Braf hefyd oedd cael gwahodd disgyblion o Ysgol Gynradd Carno i ymuno yn yr hwyl.

We had an exiting day on the 9th June when the staff from the National Park held a range of workshops that included:

- *Planetarium*
- *Identifying moths*
- *Owls*
- *Analysing predators*
- *Experiments with lights*
- *Meet bats*

The pupils learnt about biodiversity and the science at night. It was also a pleasure to have Carno Primary School to join in with the excellent day.



Dyddiadau Pwysig / Important Dates

- Dydd Mawrth 1 Medi - Diwrnod Di-ddisgybl
- Dydd Mercher 2 Medi - Ysgol yn Agor
- Hanner Tymor - 26 Hydref i 30 Hydref
- Dydd Llun 2 Tachwedd - Diwrnod Di-ddisgybl
- Dydd Mawrth 3 Tachwedd - Dydd Gwener 18 Rhagfyr - Ysgol
- Dydd Llun 4 Ionawr i Dydd Gwener 12 Chwefror - Ysgol
- Hanner Tymor 15 - 19 Chwefror
- Dydd Llun 22 Chwefror - Dydd Gwener 18 Mawrth - Ysgol
- Dydd Llun 4 Ebrill - Diwrnod Di-ddisgybl
- Dydd Mawrth 5 Ebrill i Dydd Gwener 27 Mai - Ysgol
- Hanner Tymor - Dydd Llun 30 Mai i Dydd Gwener 3 Mehefin
- Dydd Llun 6 Mehefin i Dydd Gwener 15 Gorffennaf - Ysgol
- *Tuesday 1st September - Non pupil day*
- *Wednesday 2nd September - School Open*
- *Half term 16th October to 30th October*
- *Monday 2nd November—Non pupil day*
- *Tuesday 3rd November to Friday 18th December - School Open*
- *Monday 4th January to Friday 12th February—School Open*
- *Half Term 15th to 19th February*
- *Monday 22nd February to Friday 18th March—School Open*
- *Monday 4th April - non pupil day*
- *Tuesday 5th April to Friday 27th May - School Open*
- *Half Term - Monday 30th May to Friday 3rd June*
- *Monday 6th June to Friday 15 July - School Open*

Gala Nofio / *Swimming Gala*

Llongyfarchiadau i Grace Buschini a Beca Jones sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn Gala Nofio yn y Trallwng yn ddiweddar. Mae Grace a Beca yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf sydd yn cael ei chynnal yn Aberhonddu ddydd Gwener, Mehefin 26ain. Pob lwc i'r ddwy ohonoch.

Congratulations to Grace Buschini and Beca Jones who have been successful in the swimming Gala in Welshpool recently. Grace and Beca will be going to the next round which is being held at Aberhonddu on Friday June 26th. Best of luck to both of you!



6

Ymweliad 'ZooLab' Visit



Yn ddiweddar, cafodd y disgyblion gyfarfod â chreaduriaid go ddieithr i ardal Bro Ddyfi pan fu aelod o ZooLab yn ymweld â'r ysgol. Bu'r disgyblion yn dysgu am gynefinoedd, deiet ac arferion nifer o greaduriaid gan gynnwys y tarantiwla a'r neidr yd. Profiad gwerthfawr iawn!

Recently our pupils had the opportunity to meet creatures not accustomed to the Bro Ddyfi area when a member of ZooLab visited the school. The pupils learnt about different habitats, diets and interesting facts about the different creatures including a tarantula and a snake. A very worthwhile experience!





Bu disgyblion dosbarth 5/6H a 5/6J yn ffodus iawn i groesawu Sarah o gwmni Machinations i gynnal dau weithdy gyda nhw am deganau symudol. Yn ystod y gweithdy cyntaf bu'r disgyblion yn archwilio'r symudiadau o fewn y teganau cyn bwrw ati i ddylunio eu tegan eu hunain. Yn ystod yr ail weithdy, aethpwyd ati i greu, profi a gwerthuso'r teganau. Diolch yn fawr i Sarah am gynnal gweithdai mor ddiddorol a buddiol.

Pupils from 5/6H and 5/6J were very fortunate to be able to welcome Sarah from Machinations who gave 2 workshops for the pupils on toys with movable parts. During the first workshop, the pupils researched toys with moveable parts and then went on to design their own toys. During the second workshop, they designed, tested and evaluated their new toys. A big thank you to Sarah for holding the workshop; it was very interesting and all the pupils enjoyed themselves.

8

Seromoni Wobrwyo

Os nad oeddech yn ddigon ffodus i gael bod yn rhan o'r seromoni, dyma ddeholiad o'r noson:

If you were unable to attend the awards ceremony, here is an extract of the evening:



Mabolgampau 2014 – Enillwyr Glyndwr

Cyfwynir cwpan Mabolgampau'r Ysgol i gapteiniaid y tîm buddugol sef Glyndwr.

We start this part of the ceremony by presenting the Sports shield to the captains of the winning team in last summer's sports day which was Glyndwr.

Y capteiniaid oedd Mared Ingram a Jake Hinge. Ga i ofyn i'r ddau ddod i dderbyn y cwpan gan Mrs Nia Lewis.

Cwpan y diweddar Val James yw'r wobwr nesaf sef cwpan sy'n cael ei roi i ddisgybl dawnus ym myd y ddawns

Val James was a teacher at this school who dedicated much of her time to teaching dance and promoting dance.

Fe fyddai Mrs Val James yn falch iawn o ddeall bod y diddordeb mewn dawnio yn parhau yn gryf yn yr ysgol. Cafodd Mrs Val James gyfnod llwyddiannus iawn yma yn dysgu plant yr ysgol i ddawnsio gwerin yn benodol. O gwmpas yr ysgol gwelir rhai lluniau sy'n coffau rhai o'i llwyddiannau megis yn eisteddfod Porthaethwy 1976 a pherfformiad cofiadwy yn y Royal Albert Hall yn Llundain gyda chyn ddisgyblion fel Mrs Carwen Williams a Wil Lloyd ei gŵr; Graham Davies, Catrin Fychan ac eraill yn perfformio.

Today many girls stand out on the dance floor and could well win this prize in the next few years. Myfanwy Fenwick, for example, made a huge impression in the school eisteddfod a few weeks ago. However, tonight the cup goes to one who has developed her technique over many years and who is by now a formidable performer and an inspiration to others.

Cwpan Meiriona Jones

Rwy'n siwr bod nifer ohonoch yn cofio'n annwyl iawn am Miss Meiriona Jones a fu'n Ddirprwy Bennaeth yn yr ysgol, ac yn gyfrifol am yr ysgol ar un cyfnod. Roedd gweld rhywun yn dod yn ei flaen yn bwysig iawn iddi a'i dymuniad hi oedd bod y cwpan hwn yn cael ei roi i berson sydd wedi gwneud cynnydd arbennig.

Some of you may remember or know Miss Meiriona Jones who was the deputy head here during the nineties. She wanted this cup to be presented to someone who had made special progress:

Enwebwyd tri eleni ar gyfer y wobwr hon sef: Aron Jones, Harley Jones a

Matthew Ames. Mae Harley Jones wedi wynebu sefyllfa anhygoel o anodd ac wedi goroesi ac yn llawn haeddu gwobr Miss Jones.

Cwpan J Wyn Thomas

Cwpan J Wyn Thomas yw'r wobwr nesaf. Roedd Wyn Thomas yn bennaeth ar yr ysgol ac ar ei ymdeoliad penderfynodd gyflwyno cwpan i'r Dysgwr Gorau er wryn cydnabod y rôl bwysig sydd gan ddysgwyr Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain.

Mr Wyn Thomas, a former headteacher of the school, wanted an award for the best Second Language Welsh learner. This, like many of the awards, was a difficult choice to make. The following pupils were nominated in recognition of the progress and effort they have made in learning Welsh: Rhiannon Mills, Jonathan Bletcher and Joseph Lewis. We wish them all continued success in their studies and hope they will continue to develop their Welsh language skills. The winner is Jonathan Bletcher.

Cwpan Nerys Williams – Ysgol a Chymuned

Mae Mrs Nerys Williams yn gyn ysgrifenyddes yn yr ysgol ac yn berson gweithgar iawn yn y gymuned. Ei dymuniad hi oedd cydnabod y gwaith mae pobl ifanc yn ei wneud allan yn y gymuned.

Some of you may remember Mrs Nerys Williams who was the school secretary for many years and very active in the community. She wanted to acknowledge the voluntary work many pupils do in school and out in the community.

Anna Davies and Charlie Alderton have both made an impression in school for their dedication to their Child Care Studies and also for showing true commitment to the Welsh Bac qualification. As part of their course, both girls have organised placements at local primary schools: Anna in Llanbryn-mair and Charlie at Dyffryn Dulais. The two students have been highly praised by the staff for their dedication to the work within the schools' community. Anna is awarded the prize this year for sustaining that commitment over two years.

CWPAN MENNA WYN PRICE –

Gwobr am oresgyn anawsterau yw Cwpan Menna Wyn Price. Rica Manopol, Amber Jones, Danielle Vince, Megan Lewis and Megan



Awards Ceremony

9

Thornton are all students who have overcome different difficulties in their lives and the school applauds their achievements in this respect. However, the award must be given to one person. Having made remarkable progress during the last two years, Amber Jones has been offered a place to study Health and Social Care at Coleg Powys and we wish her well with her studies.

Tarian Adwy Deg – offerynol

Er ein bod ni'n ysgol gymharol fach mae gennym nifer o offerynwyr talentog yn ein mysg. Bob blwyddyn mae un yn arbennig yn serennu. Cyn enwi, priodol ydy diolch yma i'r holl athrawon peripetedig sydd yn cefnogi'r adran gerdd drwy ddarparu hyfforddiant arbennigol: ar y chwythbrennau, pres, gitar, telyn ac offer taro.

There are many excellent musicians in the school but one, who stands out this year for being totally dedicated to his playing and to supporting others in various ensembles, is Paul Faber. His gitar playing is truly outstanding. Ga i alw ar Mrs Nia Lewis i gyflwyno'r wobwr i Paul Faber.

Tlws Coffa Mared Elfyn

Mae'r wobwr nesaf yn un newydd; yn un i gofio am un a serenodd yn ein plith am gyfnod llawer iawn rhy fyr. Ac er bod cysgod tristwch dros y wobwr hon mae hi hefyd yn fodd o sicrhau bod Mared yn fyw yn ein hatgofion. The next award is new; it is an award to remember one who shone amongst us for far too short a time. Even though the award may be tinged with sadness it is also a way of ensuring Mared lives on in our thoughts and memories.

Roedd Mared Elfyn yn athrawes amryddawn: yn ddiwylliedig, yn athletig ac yn berfformwraig dalentog a gyfaredodd bawb o'i chwmpas.

Mared Elfyn was a multi talented teacher: cultured, athletic and an outstanding performer who enchanted all around her.

Cyflwynir y wobwr yma yn rhodd i'r ysgol gan ei thaid Mr Bobi Roberts. Ei ddymuniad yw i'r wobwr gael ei chyflwyno i berson sydd yn haeddu clod a chydabyddiaeth am wirfoddoli a chymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian at elusennau. Daw hyn yn dilyn ymgyrch godi arian at Ambiwllans Awyr Cymru pan godwyd oddeutu £40,000 gan ffrindiau Mared drwy redeg hanner marathon Môn.

The Mared Elfyn award for volunteering and fundraising is a donation from Mr Roberts, Mared's grandfather in recognition of Mared's friends who raised around £40,000 for the Welsh Air Ambulance by running in the Anglesey Half Marathon.

Addas iawn heno yw cyflwyno gwobwr er cof amdani i un sydd wedi gwneud llawer iawn o waith gyda ieuenctid yr ardal ac sydd wedi casglu dros 100 o oriau gwirfoddoli. Cyflwynir y wobwr i Heulwen Thomas.

Gwobwr yr Ysgol am Berfformio

This award was chosen by Mrs Llio James and Mr Nic Ros who were looking for a person that performed well in Drama and Music. There are three nominations, Lliwen Jones, Holly Hughes and Naomi Jones.

Eleni Holly Hughes sy'n mynd â'r wobwr am ei gwaith perfformio. Holly is looking forward to studying Music Practice at the University of Central Lancashire; it is also worth noting that Holly received an unconditional offer from Wolverhampton University based on, and I quote 'your outstanding audition'.

Tarian y Cyng Michael Williams yw'r wobwr nesaf sef i bencampwr y flwyddyn ym myd chwaraeon. *This Award is for excellence in the sporting world. Yr enwebiadau eleni oedd Kieran Jones, Fflur Jones, Ifor Evans a*

James Ingleston. Mae'r un sydd yn derbyn y darian eleni yn gwneud hynny am ei gyfraniad cyson a diflino ar feysydd chwarae'r ysgol a'r gymuned. Y mae hefyd yn gobeithio arbenigo mewn addysg gorfforol yn y brifysgol maes o law.

I have no doubt that Kieran is an inspiration to all those who have witnessed his ability on the sporting fields.

John Edwards Exhibition Fund

Ysgoloriaeth yw hon i ddisgyblion sy'n byw ym mhlwyfi Cemmaes a Llanwrin, sydd wedi bod yn yr ysgol am o leiaf 4 mlynedd, ac sydd yn bwriadu mynd ymlaen i dderbyn addysg mewn Prifysgol.

This award is given to pupils who live in either Llanwrin or Cemmaes and must have attended the school for at least 4 years. The nominations are Ellie Yallop and Llinos Owen.

Mae Ellie Yallop yn llawn haeddu'r wobwr hon.

Cwpan Lis Puw

Dyma'r enwebiadau :

Ffion Tomlinson

Lowri Faber

Lleu Bleddyn

Lowri Jones

Aron Parry

Mae'r wobwr yn cael ei rhoi i ddisgybl sydd wedi gwneud cryn argraff yn yr ysgol: am ei hymrwymiad llwyr i'w hastudiaethau; am ei dyfalbarhad; ac am fod yn esiampl i eraill o'r hyn sy'n bosib ei gyflawni.

Lowri Jones is a model pupil who has made exceptional progress and fully deserves to win this award. Llongyfarchiadau Lowri.

Carwn ddymuno'n dda iawn i'r bobl ifanc i gyd a'u hannog nhw i barhau i roi o'u gorau ymhob agwedd o'u gwaith yn yr ysgol, yn y gymuned ac yn y brifysol neu mewn gwaith maes o law.

I would like to take this opportunity to wish all the best to all the children of the school, including the ones not nominated tonight. I urge them all to continue to give of their best in all aspects of school life; voluntary and community work and in time, at university or the world of work.

Mae gan bawb ei gyfraniad i wneud. Each one of you has a contribution to make. Make it count!

10 Yr Adran Wyddoniaeth

Prize Winners - University Challenge	
1st Prize	Llandrindod High School
2nd Prize	Ysgol Bro Hyddgen
3rd Prize	Welshpool High School



Gwyddoniaeth gymhwysol

Mae'r myfyrwyr gwyddoniaeth gymhwysol; Jack, Lucy, James, Rebecca, David a Ryan wedi cael y ffrind o ddarparu gofal ar gyfer cywion fel rhan o'r cwrs tefel A Gwyddoniaeth Gymhwysol. Deorodd y cywion ar Fehefin y 9fed, ac maent wedi bod yn gwneud cynnydd da drwy fagu pwysau dros y mis diwethaf. Hoffwn ddiolch yn fawr i Mrs Meir Jones a Mrs Lowri Evans am ddarparu'r offer ac edrych ar ôl y cywion ar y penwythnosau.

Cystadleuaeth Cemeg Salters

Aeth Nina, Joe, Lauren a Kiran i Brifysgol Aberystwyth er mwyn cystadlu yng nghystadleuaeth fawreddog Salters yn erbyn nifer o ysgolion lleol. Cafwyd diwrnod campus a llawn hwyl yn y Brifysgol, a llwyddodd y grŵp i ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Defnyddiwyd nifer o wahanol fathau o offer soffistigedig yn ystod y diwrnod. Edrychwn ymlaen at gymryd rhan eto'r flwyddyn nesaf!

Cyfleon newydd

Mae gennym gyfle cyffrous, newydd, i Flwyddyn 12 y flwyddyn neaf. Byddwn yn dechrau cwrs Gwyddoniaeth Amgylcheddol ym mis Medi.

Arholiadau

Hoffwn longyfarch ein dysgwyr ar orffen eu harholiadau neu gymwysterau BTEC. Edrychwn ymlaen i'ch gweld ym Mis Awst ar gyfer y canlyniadau.

Applied Science

The applied science students: Jack, Lucy, James, Rebecca, David and Ryan have been given the opportunity to care for chicks as a part of the applied science A level course. Six out of seven eggs hatched on the 9th of June, and have been making good progress, gaining weight over the past month. A big thank you to Mrs Meir Jones and Mrs Lowri Evans for supplying the equipment and caring for the chicks over weekends.

Cystadleuaeth Cemeg Salters

Nina, Joe, Lauren and Kiran went to Aberystwyth University to compete against a number of local schools in the prestigious Salters Chemistry competition. A fun and exciting day was had by all: the team succeeded in coming second. During the day, the students were allowed to use a number of different and sophisticated pieces of equipment. We look forward to taking part again next year!

New opportunities

We have an exciting new opportunity for the new year 12 students. The Environmental Science Diploma will start this September!

Exams

We would like to congratulate our students on completing their exams and BTEC qualifications. We look forward to seeing you in August for the results.



Taith i'r Llyfrgell Genedlaethol

11

Diolch i'r Llyfrgell Genedlaethol am y croeso cynnes!

Thanks again to the National Library for the warm welcome!



Brynhawn ddydd Llun, 6 Gorffennaf aeth criw helaeth o blant Blwyddyn 8 draw i Aberystwyth i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol. Cawsom groeso cynnes fel arfer wrth i'r disgyblion gael cyfle gwych i bori drwy rai o'n cyhoeddiadau pwysicaf ni yma yng Nghymru gan gynnwys y Beibl a gyfieithwyd gan William Morgan yn 1588, Llyfr Du Caerfyrddin, Cyfreithiau Hywel Dda yn ogystal â thaith ddifyr o amgylch yr adeilad anhygoel er mwyn gweld sut y mae'r Llyfrgell yn gweithio o ddydd i ddydd. Diolch yn fawr unwaith eto i'r Llyfrgell am y croeso a gobeithiwn y cawn y cyfle i deithio i Aberystwyth unwaith eto'n fuan.



On the afternoon of Monday 6th July the majority of pupils from year 8 went to Aberystwyth to visit the Wales National Library. As usual we had a very warm welcome as the pupils got the opportunity to pour through some of the most important publications in Wales including the Bible that William Morgan translated in 1588, Llyfr Du Caerfyrddin, Cyfreithiau Hywel Dda and the pupils were also given a tour around the amazing building and see how the library functions from day to day. Thanks again for the brilliant welcome we had and we hope to have the opportunity to return to Aberystwyth again soon.



12 Beth yw COBWEB ?



Mae COBWEB, y Citizen OBServatory WEB, yn gynllun sy'n defnyddio 'gwyddoniaeth gwerin' (*citizen science*) sef galluogi dinasyddion i gasglu gwybodaeth amgylcheddol drwy ddefnyddio technynnau symudol. Bydd y wybodaeth a gesglir yn addas i'w ddefnyddio mewn ymchwil gwyddonol, gwneud penderfyniadau a llunio polisi. Mae COBWEB yn ddibynnol ar yr hyn a elwir yn 'dorfdarddu' (crowdsourcing) sef casglu data gan dorff amhenodol o bobl.

Beth yw gwyddoniaeth gwerin?

Gellir diffinio 'gwyddoniaeth gwerin' yn eang fel cyfraniadau gwirfoddolwyr i wyddoniaeth. Mae'r dull yma o gynnal ymchwil gwyddonol yn dod yn fwy-fwy poblogaidd, gan y gellir casglu toreth o wybodaeth yn gyfleus. Yn ogystal, mae datblygiadau mewn technolegau symudol wedi gwneud gwyddoniaeth gwerin yn ymarferol fel modd o ymchwilio.

Pam cymryd rhan?

Mae COBWEB angen 'gwyddonwyr gwerin' sy'n awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau ymchwil yma yn ardal Biosffer Dyfi. Nid yn unig y gallech gyfrannu gwybodaeth ond gallech hefyd weld eich cyfraniadau chi ochr yn ochr â data'r 'dorff'.

Beth yw Biosffer Dyfi?

Mae ardaloedd Biosffer yn safleoedd sydd wedi eu dynodi dan raglen Bobl a'r Biosffer UNESCO i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar sail ymdrechion cymunedol a gwyddoniaeth safonol. Biosffer Dyfi yw'r cyntaf yng Nghymru, un o 631 ardal debyg mewn 119 gwlad ar draws y byd. Mae'r ardaloedd o gwmpas yr afon Ddyfi yn gartref i rai o dirluniau nodedig a bywyd gwylt gorau Ewrop. Er hynny nid yw'r rhan fwyaf o Fiosffer Dyfi'n ardal o gadwraeth ond yn hytrach yn fan lle mae pobl yn byw ac yn gweithio.



What is COBWEB?



The Citizen Observatory Web is a project concerned with enabling citizens to collect environmental data using mobile devices. These data will be suitable for use in research, decision making and policy formation. COBWEB relies on what is known as crowdsourcing; information (data) collected by an undefined 'crowd' of people.

What is citizen science?

Citizen science can broadly be defined as the involvement of volunteers in science. It is becoming an ever more popular method of performing scientific research because large amounts of data can be collected. Advances in mobile technologies make citizen science increasingly viable as a research tool.

Why take part?

COBWEB needs aspiring citizen scientists to participate in its research activities. Not only can you contribute data, you can also see your contributions online alongside the rest of the crowd's data.

The Dyfi Biosphere

Biosphere Reserves are sites registered under UNESCO's Man and the Biosphere programme to

promote sustainable development based on local community efforts and sound science.

The Dyfi Biosphere is the first in Wales, one of 631 biosphere reserves in 119 countries all over the world. The areas around the river Dyfi host some of the finest examples of special landscapes and wildlife areas in Europe. However, most of the Dyfi Biosphere is not a conservation area, simply places where people live and work.



Diwrnod Teulu COBWEB



Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan!

Thanks to all who took part!

Ar derfyn yr hanner tymor aeth nifer o blant yr ysgol a'u teuluoedd i Ganolfan yr RSPB yn Ynys Hir fel rhan o gynllun Cobweb. Mae hwn yn gynllun cyffrous iawn sef casglu gwybodaeth amgylcheddol trwy ddefnyddio teclynau symudol. Bu nifer fawr o wyddonwyr ifanc yn crynhoi gwybodaeth am safle Ynys Hir sy'n rhan o ardal Biosffer Dyfi. Mae'r ardaloedd o gwmpas afon Dyfi yn garftref i rai o ddarluniau nodedig a bywyd gwylt gorau Ewrop. Diolch i Tomi Rowlands ac Erin Good am drefnu'r digwyddiad.

Over half term, a number of pupils from the school and their family went to the RSPB Ynys Hir Nature reserve as part of the COBWEB project. This is a interesting project to collect environmental information using mobile devices. Many of our young scientists collected data on the different habitats and the animals that live on the salt marsh. In addition they found out how it's changed since allowing sea water to flood the area on a regular basis at the Ynys Hir site, which is part of the Dyfi Biosffer. The area around the Dyfi is one example of breath-taking scenery and home to different habitants for wild animals in Europe. Thank you Tomi Rowlands and Erin Good for organising the event.







Fel ysgol rydym wedi bod yn hynod o ffodus o gael y cyfle i fod yn rhan o'r cynllun COBWEB. Mae'r cynllun yma wedi galluogi'r ysgol i ganiatau i'r plant ddefnyddio a datblygu sgilau a'r wybodaeth maent wedi eu dysgu yn y dosbarth a'u cymhwysio i'r byd mawr. Trwy gydweithio gyda'r RSPB yn Ynys Hir mae plant blwyddyn 10 wedi llwyddo i gofnodi data wyddonol mewn dull effeithiol drwy ddefnyddio dulliau dilysu cywir. Mae'r prosiect hwn hefyd yn fodd o ddatblygu sgiliau Technoleg Gwybodaeth y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol hefyd wedi bod yn ffodus o gael cydweithio gyda'r tîm addysg RSPB dros y 2 flynedd ddiwethaf i gwblhau prosiect sy'n cofnodi pa anifeiliad sydd yn byw mewn gwahanol gynefinoedd gyda blwyddyn 8-9 yn y warchodfa natur. Bu'r disgyblion yn defnyddio'u ffonau symudol yn ogystal â meddalwedd COBWEB i gofnodi'r data yma mewn modd priodol a chywir.

Fel rhan o'r cynllun yma mae'r ysgol wedi derbyn gorsaf dywydd sydd am ein galluogi i ddefnyddio'r data yma i gymharu newidiadau mewn tywydd a darganfod mwy o wybodaeth am fathau gwahanol o dywydd ac ym mha fath o hinsawdd y mae'r anifeiliad yn hoffi byw ynddo.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i'r tîm addysg RSPB Ynys Hir am eu cymorth ac hefyd y tîm COBWEB am y cyfle i gymryd rhan yn y cynllun yma.



Year 9 & 10 testing the COBWEB app

17



As a school we have been very lucky to have the opportunity to be a part of the COBWEB project. This project has enabled the school and our pupils to give practical uses of the theory we teach in our lessons and to use this knowledge and see how it can be used in the real world. By co-working with the RSPB Ynys Hir education team our pupils were given the opportunity to record scientific information about what animals live in different habitats and using mobile devices the pupils are able to use this technology to gather this information.

The school has also been fortunate to be able to work with the RSPB team over the past 2 years to do a similar project based on which animals live in which habitats with our year 8-9. The nature reserve has been using the portable devices and using validation to ensure the integrity of the data collected and the pupils are giving their feedback on how usable the devices are to use.

As part of this project the school has been donated a weather station in order to record and compare weather conditions with the records we collect. The data can then match which animals prefer which type of habitats and weather conditions.

We would like to take this opportunity to thank the RSPB education team for their hard work and but also the COBWEB team for having the opportunity to take part of this project.



18 Welcome Home Miss Haslam!

On the 29th of June I returned to Ysgol Bro Hyddgen, following a wonderful six month placement teaching in a rural district of Lesotho.



Working at Moyeni Primary School was definitely the experience of a lifetime. It was so inspiring to be part of a school community which struggled to acquire resources as basic as water and pencils, yet still managed to possess a much more positive and appreciative attitude to learning and school life than we do in the UK. Learners in Lesotho face so many obstacles; gender inequality, illness, orphaning and poverty, but still come to school each day smiling and singing. They take pride their uniform and surroundings and show the upmost respect to teachers, this should be an example to us all.

During my time in Africa I feel I accomplished a great deal, both professionally and personally. The main objective of the partnership was to improve literacy across the school. I achieved this by working closely with the phonics coordinator to introduce strategies which would improve pupils' confidence building and reading words in English. I also built a library for staff and pupils to use with books

donated from schools across Wales. In addition to this, I helped teachers to plan and deliver more active learning in their lessons. It was really interesting to observe another bilingual school to see how staff approached delivering information in two different languages.

Although Basotho Classrooms are very different to what we are used to in Wales (sometimes 110 children in a class), it was still possible to gain a great deal of transferable skills. I am now more confident managing large class sizes and much more aware of issues surrounding global citizenship and sustainability.

The placement taught me to be a lot more resourceful and creative in the classroom and less reliant on technology/expensive materials. I am certainly lot braver than I was before; swimming with great white sharks and completing the world's longest abseil (204m) were certainly not for the feint hearted!

Going forward, I hope I can encourage my



Croeso nôl Miss Haslam!

19

own learners to be more adventurous and truly thankful for the facilities and opportunities they are so lucky to have here in Machynlleth. I am also very excited to work with Bro Hyddgen pupils to continue developing our school link with Qacha's Nek United.

I would like to take this opportunity to thank everyone for their support during my travels and for the very warm welcome I received on my return to school.

Ke Leboha!

Miss Haslam



20 Cwis Llyfrau / Book Quiz

Rownd Genedlaethol Cystadleuaeth Darllen Dros Gymru 2015



Rownd Genedlaethol Cystadleuaeth Darllen Dros Gymru 2015 Llongyfarchiadau i dim Blwyddyn 4 y Cwis Llyfrau ar eu llwyddiant yn cystadlu yn Rownd Genedlaethol Cystadleuaeth Darllen Dros Gymru 2015, sef, Gwenllian Mason, Beca Jones, Enlli Phillips a Morus Morgan.

Cynhaliwyd y Rownd Genedlaethol ar 16 Mehefin, yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth, gyda chynrychiolwyr o bymtheg ysgol ledled Cymru yn cystadlu.

Aeth llond bws o ddsbarth 4/5T i lawr i'w cefnogi.

Yn ystod y dydd cafodd y plant gyfle i weld cyflwyniadau dramatig yr ysgolion eraill, a gwranddo ar sgwrs hynod o ddifyr gan Meleri Wyn James, awdur llyfrau 'Na, Nel'. Cafwyd cyfle hefyd i holi'r awdures.

Cafwyd perfformiad gwych gan y tim, a sgôr uchel iawn yn yr adran Trafod Llyfrau. Llongyfarchiadau mawr i chi – rydych yn glod i Ysgol Bro Hyddgen.

Diolch i Mrs Gwenan Phillips a Mrs Ann Eleri Thomas am eu gwaith caled yn hyfforddi'r tîm.

Congratulations to Morgan, Enlli, Beca and Gwenllian on their success in the National Reading for Wales competition. The National rounds were held on 16th June at Aberystwyth Arts Centre, with fifteen schools throughout Wales taking part, and a bus from class 4/5T went down to Aberystwyth to support their fellow pupils.

During the day the pupils had an opportunity to watch all the other schools' dramatic presentations, and to listen to the author of the books, 'Na, Nel', Meleri Wyn James. There was also an opportunity to ask the author some questions. The team gave a fabulous performance and gained a very high score in the book discussion section. Congratulations to you all, you are a credit to the whole school.

Thank you also to Mrs Gwenan Phillips and Mrs Ann Eleri Thomas for their hard work in preparing the team for the competition

Diwrnod Pyjamas / Pyjama Day

Mae plant y Campws Cynradd wedi bod yn hel arian i blentyn saith oed o'r enw Mary Nameno ac mae'r ysgol yn ei noddi yn Uganda. Llwyddodd y plant gasglu £200 ar y digwyddiad yma! Da iawn chi!

The pupils in the primary campus have been raising money for a seven year old child called Mary Nameno who the school has sponsored in Uganda. The children raised £200 during the day. A job well done!



Ffair Haf Campws Cynradd

21



Cafwyd Ffair Haf lwyddiannus iawn eto eleni a gwnaed elw teilwng o £1300. Diolch i holl rieni'r ysgol a'r staff am eu cefnogaeth arbennig ac am sicrhau llwyddiant.

Cafwyd amrywiaeth eang o stondinau, lle cafodd disgyblion Blwyddyn 6 flas ar drin arian a chystadleuaeth bêl-droed gyffrous dan ofal Mr. Alwyn Jones

Diolch yn fawr i'r pwyllgor CRhA am yr holl waith trefnu.

A very successful summer fair was held once again this year making a profit of £1300. A big thank you to all the parents for their support ensuring a successful event.

There was an array of stalls, and an exciting football tournament organised by Mr. Alwyn Jones.

A huge thank you to the PTA for all their hard work organising the fair.



22 Llwyddiant yn y Steddfod

Fuoch chi draw yn blasu caws Caerffili yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd eleni? Os fuoch chi ar faes yr eisteddfod, efallai i chi gael cyfle i flasau rhai o dalentau Ysgol Bro Hyddgen a fu wrthi'n ddiwyd yn cystadlu.

Dyn prysur iawn oedd Aron Wyn Parry o flwyddyn 12 gyda'i lais canu swynol yn plesio'r beirniaid yn arw a diddanu'r gynulleidfa wrth iddo ganu'r unawd cerdd dant o dan 19 a chipio'r drydedd wobr. Profodd llwyddiant hefyd wrth ganu'r Alaw Werin gan gamu i'r llwyfan a chipio'r ail wobr. Llongyfarchiadau gwresog i ti Aron ar dy llwyddiant gan edrych ymlaen yn arw at glywed mwy o dy lais canu yn y dyfodol agos.

Nid yn yr adrannau cerddorol yn unig y profwyd llwyddiant yn yr Urdd eleni wrth i Lliwen Glwys Jones o flwyddyn 13 gipio'r wobr gyntaf am ei dawn Hip-Hop. Does dim dwywaith iddi lwyddo i blesio'r beirniaid gyda'i symudiadau creadigol; mae dyfodol disglair yma heb os.

Dymunwn fel ysgol longyfarch pawb fu'n cystadlu yn yr eisteddfod eleni ac i'r rheini sy'n brysur yn eu hyfforddi.

Ymlaen i'r Fflint y flwyddyn nesaf...


Did you have a taste for Caerffili cheese during the Eisteddfod Week? If you went on the Eisteddfod site you could possibly taste the talents of Ysgol Bro Hyddgen students who were fearless in their competing.

Aron Wyn Parry from Year 12 was very busy with his voice and pleased the judges and audience with his charming voice as he competed for the Cerdd Dant under 19 solo: Aron was awarded 3rd prize. He was also successful with his performance of the Alaw Werin by stepping on the main stage and winning second prize. A big congratulations to you Aron on your success. We are looking forward to the your next performance in the near future.

Not only did the music department wow the judges with vocal performances in the Urdd, Lliwen Glwys Jones from Year 13 won 1st prize for dancing hip-hop. It was clear she delighted the judges with her creative dance moves. The future is clearly bright for Lliwen.

We, as a school, would like to congratulate everyone who has been competing recently and to the parents who have been busy supporting their children.

Next stop... Flint next year!



Band Henebion Mach

23



Hoffem longyfarch y band Henebion ar eu llwyddiant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n bleser gweld band o Ysgol Bro Hyddgen yn mynd o nerth i nerth ac yn perfformio yn yr Eisteddfod ar y llwyfan awyr agored a hefyd hoffwn ddiolch i'r band am berfformio yn y Prom eleni hefyd. Roedd o'n berfformiad gwerth ei weld!

We would like to congratulate Henebion Mach on their success over the last year. It is such pleasure to see a band from Ysgol Bro Hyddgen going from success to success performing in events such as the Eisteddfod on the outdoor stage. We would also like to thank the band for playing at the Year 11 Prom this year. It was a performance worth seeing!

Croeso i'r Eisteddfod Genedlaethol i Feifod!

Er mwyn croesawu'r Eisteddfod i Bowys trefnodd Menter Maldwyn ar y cyd â'r eisteddfod weithdy a roddodd y cyfle i'r disgyblion drefnu gig fawreddog yn y neuadd. Yn ffodus i ni gwelwyd perfformiad anhygoel gan Candelas a'r Henebion. Mae'r ysgol hefyd, yn ystod yr wythnos weithgareddau wedi paratoi arddangosfa o flaen yr ysgol i groesawu'r Eisteddfod i'r sir eleni.

To welcome the Eisteddfod to Powys this year, Menter Maldwyn organised that the Candelas band came to the school to give a performance. During activities week, pupils and staff have worked to create an excellent display in front of the school to welcome the Eisteddfod to our county.



24 Mabolgampau Campws Cynradd



Mabolgampau yr Adran Iau

Cynhaliwyd Diwrnod Mabolgampau hynod o lwyddiannus eleni, gyda chystadlu ardderchog gan y pedwar tîm – Crewi, Dulas, Dyfi a Llyfnant. Bu'r capteniaid wrthi'n ddiwyd am ddiwrnodau'n trefnu'r cystadleuthau, ac roedd y marciau terfynol yn agos iawn.

Dyfi a ddaeth i'r brîg eleni – llongyfarchiadau mawr i chi.

Mabolgampau Adran Y Cyfnod Sylfaen

Cynhaliwyd Diwrnod Mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen ar 2 Gorffennaf. Er mwyn osgoi'r haul tanbaid penderfynwyd i gynnal y cystadlaethau yn y bore. Daeth tyrfa dda o rieni ynghyd i gefnogi'u plant – rhai ohonynt yn cystadlu am y tro cyntaf erioed.

Uchafbwynt y cystadlu oedd gweld disgyblion Blwyddyn 2 yn gwibio yn y ras fawr o amgylch cae'r ysgol.

Sports day – Junior Department

A very successful Sports Day was held this year with excellent results for the four teams – Crewi, Dulas, Dyfi and Llyfnant. The Captains were busy for days arranging the competitions, and the final marks were incredibly close.

Foundation Phase Sports day

The Foundation Phase Sports day was held on 2nd July. The competitions were held during the morning in order to avoid the intense heat of the afternoon, and it was lovely to see so many parents that came to support their children – some competing for the very first time.

The highlight of the morning was watching the Year 2 pupils sprint in the big race around the school field.



Penwythnos ym Mhenfforddlas

25



Bu nifer o ddisgyblion blwyddyn 5 yn mwynhau penwythnos o weithgareddau yng Nghanolfan Awyr Agored Penfforddlas, yng ngwmni Mr. Alwyn Jones, Mrs Anita Schwartz, Mrs Eleri Lewis, a Miss Juile Price. Dychwelodd y plant yn hapus ond blinedig wedi penwythnos cyffrous o weithgareddau awyr agored, megis adeiladu rafftiau, cyfeiriannu a gweithgareddau datblygu sgiliau tîm.

